Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol GG Rhos-Afan
# Marine Drive
# Sandfields
# Port Talbot
# SA12 7NN

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/08/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos Afan wedi ei lleoli ar ystâd Sandfields yn Aberafan, ger Port Talbot. Mae 365 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 81 o blant meithrin rhan amser. Mae'r nifer ar y gofrestr wedi parhau'n weddol gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Daw tua traean o'r disgyblion o ystâd y Sandfields ac mae tua tri chwarter o'r disgyblion o ardal sydd o dan anfantais economaidd. Mae 79% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif iaith. Yn ôl yr ysgol, mae 20% â'r hawl i gael prydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sydd braidd yn is na ffigurau'r sir a Chymru gyfan. Mae 20% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol yn cynnwys nifer bach ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 3% o'r disgyblion o grwpiau ethnig cymysg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael eu gwarchod gan yr Awdurdod Addysg Leol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym Mehefin 2007. Cafodd y pennaeth presennol ei phenodi ym Medi 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos Afan yn 2012-2013 yw £2,864. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot yw £7,410 a'r lleiafswm yw £2,806. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Rhos Afan yn safle 67 o'r 68 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol Rhos Afan yn ddigonol gan fod:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau gwrando a siarad;
- y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau;
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda; a bod
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Fodd bynnag:

- nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- nid yw'r disgyblion mwyaf abl yn gwneud digon o gynnydd;
- mae diffyg cynllunio byr dymor yn yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2; ac
- nid yw'r trefniadau ar gyfer asesu a'r asesu ar gyfer dysgu yn ddigon effeithiol yng nghyfnod allweddol 2.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- y pennaeth yn arwain drwy esiampl mewn modd effeithiol;
- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a'i bod yn llwyddo i'w chyfleu yn llwyddiannus i'r holl randdeiliaid;
- ymdeimlad cryf o weithredu fel tîm yn bodoli;
- aelodau'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'u rolau mewn modd effeithiol;
- y broses hunanarfarnu yn arwain at welliannau; a bod
- yr ysgol wedi sefydlu partneriaethau effeithiol ac adeiladol gydag amryw o sefydliadau er lles datblygiad y disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella cyflawniadau'r bechgyn ar draws yr ysgol

A3 Gwella ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2 er mwyn sicrhau digon o her i'r disgyblion mwyaf abl.

A4 Cryfhau'r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu a gwella ansawdd a chysondeb marcio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwybod yn gliriach sut y gallant wella'u gwaith

A5 Sicrhau bod monitro gwersi bob amser yn rhoi ffocws clir ar safonau

A6 Codi cyfradd presenoldeb yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

### Safonau: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n briodol ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, ac maent yn barod i gynnig ymatebion llafar. Maent yn meithrin eu medrau llafar cychwynnol yn y Gymraeg yn dda yn y Cyfnod Sylfaen, ac yng nghyfnod allweddol 2 maent yn gallu egluro beth maent yn ei wneud yn eu gwersi gyda hyder cynyddol. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yng ngallu’r disgyblion i ymateb yn fwy helaeth ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson.

Mae medrau darllen cynnar y disgyblion yn y Gymraeg yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddarllen yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen ar goedd yn briodol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Fodd bynnag, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, nid yw’r mwyafrif o ddisgyblion, yn enwedig y bechgyn, yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a’r Saesneg. Nid yw’r cynnydd yng ngallu’r disgyblion i ymateb i ffuglen a thrafod agweddau ar yr hyn maent yn ei ddarllen yn datblygu’n effeithiol. Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd priodol o’u medrau ymchwil.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd cychwynnol cadarn wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Gallant ffurfio amrywiaeth o frawddegau, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o eirfa ac maent yn dechrau defnyddio atalnodi sylfaenol yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn eu gallu i gyfuno ystod o frawddegau cydlynol i greu darnau mwy estynedig.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dengys eu gwaith afael gynyddol o gywirdeb ac atalnodi ac mae’r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Serch hynny, prin yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig a chreadigol ar gyfer ystod gynyddol o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o ddefnydd o fedrau drafftio a golygu yn eu gwaith er mwyn gwella ei ansawdd. Mae ansawdd y llawysgrifen yn addas yng nghyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith.

Ar draws yr ystod oedran, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn ystod o gyd-destunau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent yn y mwyafrif o wersi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, roedd canran y disgyblion a wnaeth gyflawni’r deilliant disgwyliedig yn 2012 (deilliant 5) mewn perthynas â datblygu’u medrau iaith, mathemategol a phersonol yn uwch na’r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion tebyg.

Roedd canran y disgyblion a wnaeth gyflawni'r deilliant uwch (deilliant 6) mewn medrau mathemategol a phersonol yn uwch na'r teulu, ond yn is mewn medrau iaith. Mewn perthynas ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau bwyd am ddim, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer datblygu medrau personol disgyblion, yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, ond yn y 50% isaf ar gyfer medrau mathemategol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na chyfartaledd y teulu yn 2012, ond yn is na chyfartaledd y teulu yn y tair blynedd flaenorol. Yn y pedair blynedd diwethaf, mae cyfran y disgyblion a gyflawnodd y lefel uwch (lefel 5) wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu, onibai am Saesneg yn 2012.

Yn 2012, mewn cymhariaeth ag ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau bwyd am ddim, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd lefel 4 yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg, y 50% uchaf ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn y 50% isaf ar gyfer mathemateg yng nghyfnod allweddol 2. Yn y pedair blynedd flaenorol, roedd yr ysgol fel arfer yn y 25% neu'r 50% isaf.

O ran perfformiad cymharol bechgyn a merched, mae'r merched yn sylfaenol well yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, ar y cyfan, mae'r merched yn tueddu i berfformio'n well na'r bechgyn dros y blynyddoedd diwethaf.

### Lles: Digonol

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o fwyta'n iach a chadw'n heini yn dda. Mae nifer sylweddol o'r disgyblion yn manteisio'n llawn ar weithgareddau addysg gorfforol ac yn cymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau a chwaraeon yn lleol a chenedlaethol. Mae hyn, ynghyd â'r gweithgareddau ôl ysgol, yn cyfrannu'n sylweddol at hyder y disgyblion ac at eu dealltwriaeth o'r angen i ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda, maent yn cadw ar dasgau ac yn gwneud defnydd da o'u hamser.

Yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gosod a monitro eu targedau eu hunain ac nid ydynt yn ddigon clir ynglyn â sut i wella eu dysgu eu hunain.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae canran presenoldeb disgyblion wedi bod yn is nag mewn ysgolion tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae wedi bod ymysg y 25% isaf o ysgolion tebyg. Mae hefyd yn is na chanrannau'r teulu a Chymru gyfan. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol yn llais effeithiol i ddyheadau'r disgyblion ac wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiol agweddau gan gynnwys iechyd, amgylchedd yr ysgol ac

adnoddau i'w prynu. Trefna'r disgyblion weithgareddau cyson i godi arian at achosion da o'u dewis hwy.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu hyder drwy gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau o fewn y gymuned leol, gan gynnwys cyngherddau a gwasanaethau, yn rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog i'r disgyblion sy'n cwrdd yn llawn â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n effeithiol i gynllunio tasgau dychmygus sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau addysgol, gweithgareddau allgyrsiol a digwyddiadau cyson yn y gymuned.

Mae'r cynllunio hir dymor yn drylwyr ac yn hyrwyddo medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae pob dosbarth yn darparu profiadau cyfoethog, uniongyrchol sy'n cael effaith gadarnhaol ar fedrau personol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cadarn ar ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru. Trwy gynllunio ymweliadau i'r ardal leol ac ymhellach a thrwy astudiaethau o bobl enwog, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth bron pob disgybl o'u treftadaeth Gymreig yn datblygu'n dda. Mae hyn yn nodwedd gref.

Mae gweithgareddau eco, gardd yr ysgol a'r defnydd o adnoddau lleol i hybu gwybodaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a'r amgylchfyd yn datblygu'n dda. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r modd y mae'r ysgol yn creu cysylltiadau â gwledydd tramor.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr holl staff a disgyblion. Pan mae'r addysgu ar ei orau mae cyflymder da i'r gwersi ac mae holi effeithiol a heriol yn ymateb i anghenion yr unigolyn. Yng nghyfnod allweddol 2, lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r gweithgareddau bob amser wedi'u gwahaniaethu'n addas ac nid yw'r cynllunio tymor byr yn ddigon manwl ar sail oedran a gallu. O ganlyniad, nid oes digon o her i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn rhoi cefnogaeth addas i unigolion a grwpiau penodol.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn gyson â'r disgyblion. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau ar ddiwedd y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi digon o

arweiniad i'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol, ond nid ydynt yn gyson ar draws yr ysgol.

Ar y cyfan, mae ansawdd trefniadau i asesu dysgu yn addas. Mae'r ysgol yn tracio cynnydd disgyblion, ond nid oes defnydd digon effeithiol o ganfyddiadau'r asesu i osod targedau.

Mae adroddiadau i rieni yn cyfateb i ofynion statudol ac yn cynnig gwybodaeth eglur iddynt ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, ofalgar, diogel a threfnus. Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y disgyblion ac i annog eu hymglymiad yn eu hysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i fwyta'n iachus a, thrwy weithgareddau corfforol a chlybiau ar ôl ysgol, maent yn elwa o amrywiaeth eang o gyfleoedd i gynyddu lefelau eu ffitrwydd ac iechyd.

Mae'r ethos cynhwysol a'r profiadau niferus yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae cwrteisi a pharch yn rhinweddau amlwg yn yr ysgol ac maent yn cael eu meithrin yn ddyddiol.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy drafodaethau staff a thracio cynnydd effeithiol ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Mae'r cynlluniau yn cael eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni, y disgyblion a'r asiantaethau arbenigol priodol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodwedd gref.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos Ysgol Rhos Afan yn un cynhwysol iawn. Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar ac mae awyrgylch cynnes a naturiol rhwng y staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r ysgol yn annog y disgyblion i ddangos parch a chonsyrn tuag at eraill ac i helpu rhai sydd o gefndiroedd amrywiol. Mae'r disgyblion yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg a'u bywyd.

Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae adnoddau o ansawdd da ym mhob ystafell ddosbarth ac mae staff yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i wella dysgu disgyblion. Mae'r adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn arbennig o dda ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddysgu disgyblion a'r safonau da y maent yn eu cyflawni.

Mae'r adeilad, sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn cynnig amgylchedd ysgogol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio'r holl le sydd ar gael yn bwrpasol. Mae arddangosiadau mewn ystafelloedd dosbarth a mannau cymunedol yn dathlu gwaith

a chyflawniadau disgyblion yn dda. Mae’r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae’r disgyblion yn elwa o’r tir helaeth sydd ar gael iddynt, gan gynnwys gardd lysiau eang y maent yn gofalu amdani. Fodd bynnag, nid yw’r tai bach yn ddigonol ar gyfer nifer y staff yn yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gweledigaeth glir a disgwyliadau uchel gan y pennaeth. Mae’n rhannu’r rhain yn llwyddiannus gyda staff, rhieni, disgyblion a llywodraethwyr. Mae hefyd yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol i’r ysgol ac yn rheoli ei gwaith yn effeithiol, yn unol â’r weledigaeth. Mae’n cael ei chefnogi’n dda gan yr uwch dîm rheoli a phob aelod o’r staff. Gweithiant yn effeithiol â’i gilydd fel tîm.

Mae cyfarfodydd staff priodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae’r rhain yn canolbwyntio’n glir ar flaenoriaethau gwella ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o’u cyfrifoldebau a’u rolau wrth gyflawni blaenoriaethau’r ysgol. Mae gan yr athrawon ddisgrifiadau swydd manwl sy’n cysylltu’n dda â’u chyfrifoldebau unigol. Mae pob athro yn cydlynu un neu fwy o feysydd neu bynciau ac maent yn cyflawni’r rolau hyn yn gydwybodol ac yn effeithiol.

Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi arweinwyr yr ysgol yn dda. Mae gan bob llywodraethwr gysylltiad â sawl agwedd ar waith yr ysgol ac mae hyn yn eu helpu i gael gwybodaeth dda am sut mae’r ysgol yn gweithredu o ddydd i ddydd. Maent yn trin data perfformiad yr ysgol yn effeithiol.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda i fentrau lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â rhoi’r Cyfnod Sylfaen ar waith yn llwyddiannus, gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ac o ran sicrhau lles disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen fanwl a phwrpasol sy’n seiliedig ar ganfyddiadau gweithdrefnau arfarnu parhaus. Defnyddia'r ysgol ystod eang o weithdrefnau i arfarnu ei gwaith, gan roi ystyriaeth dda i farn y rhieni, staff, disgyblion a llywodraethwyr.

Mae’r broses hunanarfarnu’n drylwyr ac wedi ei seilio’n gadarn ar dystiolaeth o ddadansoddi ystod eang o ddata cyrhaeddiad gwahanol grwpiau o ddisgyblion. O ganlyniad, mae’r broses a’i deilliannau yn sicrhau bod gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun a dealltwriaeth gywir o gryfderau a materion i’w datblygu. Mae proses monitro clir yn yr ysgol, ond nid yw’r monitro gwersi bob amser yn ffocysu digon ar safonau.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi amcanion penodol a phriodol. Mae’r rhain wedi’u dethol fel yr amcanion mwyaf blaenllaw yn dilyn y broses hunanarfarnu. Mae'r cynllun wedi ei gostio ac yn cynnwys amserlenni realistig a meini prawf llwyddiant priodol. Mae’r staff a’r rheolwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn

effeithiol. Mae enghreifftiau da o gydweithio cryf a rhannu arferion dysgu effeithiol eisoes o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill y dalgylch trwy gyfarfodydd cyson a defnydd effeithiol o'r rhyngrwyd.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau cryf gyda'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol a sefydliadau cymunedol,yn cyfrannu eu harbenigedd i gefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol. Mae cysylltiadau cadarn â busnesau lleol yn ogystal â cholegau addysgu athrawon.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda'r gymuned leol. Daw aelodau o'r gymuned i'r ysgol i siarad am eu gwaith. Mae'r cysylltiadau hyn yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae gan yr ysgol bartneriaeth strategol effeithiol gydag ysgolion cynradd Cymraeg y sir a'r ysgol uwchradd sy'n derbyn y disgyblion. Mae'r cysylltiadau a threfniadau gyda'r ysgol uwchradd leol yn gynhwysfawr ac yn sicrhau trosglwyddo effeithiol. Mae hyn yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon cymwys a phrofiadol ac mae'n gwneud defnydd priodol o arbenigeddau staff. Mae'r tîm addysgu a'r staff ategol yn cydweithio'n effeithiol a gwna'r athrawon ddefnydd priodol o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn manteisio'n llawn ar y cyswllt ag ysgolion Cymraeg yr ardal. Mae hyn yn darparu cyfleoedd priodol i staff fynychu cyrsiau hyfforddi addas, gan gynnwys digwyddiadau i helpu codi safonau llythrennedd a rhifedd.

Mae trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff addysgu, sydd yn cynnwys pennu targedau priodol ar eu cyfer.

Mae blaenoriaethau gwella'r cynllun datblygu ysgol yn rhoi sylw priodol i gostau'r bwriadau ac yn clustnodi gwariant priodol ar gyfer y blaenoriaethau. Mae'r ysgol yn cadw cyfran briodol o'i chyllideb fel cyllid wrth gefn.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion Cyfnod Sylfaen a wnaeth gyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y deilliant disgwyliedig (deilliant 5), yn y 50% uchaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn y 25% uchaf mewn medrau personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Roedd cyfran y disgyblion mwy abl a gyflawnodd ddeilliant uwch (deilliant 6) yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad medrau iaith, braidd yn uwch o gymharu â'r teulu ar gyfer medrau mathemategol ac yn sylweddol uwch na cyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn medrau personol a chymdeithasol. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y deilliant uwch (deilliant 6), yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ond yn yr 50% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a medrau mathemategol.

Gan mai hon yw'r flwyddyn gyntaf i gyhoeddi data Cyfnod Sylfaen, nid oes gwybodaeth am dueddiadau ar gael.

O ran perfformiad cymharol bechgyn a merched, mae'r merched yn sylfaenol well yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y pedwar pwnc yn dangos tuedd o wella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd y gyfran yn is na'r teulu am dair blynedd cyn 2012. Mae perfformiad yr ysgol yn 2012 yn ei gosod yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg, ond am fathemateg oedd yn y 50% isaf a Saesneg oedd yn y 25% uchaf; cyn hyn, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod fel arfer yn y 50% isaf o ysgolion tebyg.

Yn gyffredinol, mae canran y disgyblion mwy abl sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5) ym mhob un o'r pedwar pwnc craidd yn dangos tuedd o welliant dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, cyn 2012 roedd y canran yn tueddu bod ymhell islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel hon mewn Saesneg yn ei rhoi yn y 50% uchaf, yn y Gymraeg yn y 50% isaf ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn y 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, ar y cyfan, mae'r merched yn tueddu perfformio'n well na'r bechgyn dros y blynyddoedd diwethaf.

# Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Holiaduron i ddysgwyr**

Ymatebodd 103 o ddisgyblion i'r holiadur. Mae'r ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda phawb yn cytuno gyda'r mwyafrif o'r datganiadau. Mae bron pawb yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae bron pob disgybl yn cytuno bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a hefyd eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pawb yn cytuno bod yr ysgol yn eu cefnogi a'u cynorthwyo'n dda, ac yn eu haddysgu sut i aros yn iach. Mae'r disgyblion i gyd yn dweud bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae'r ymateb yn fwy cadarnhaol na'r cyfartaledd ar draws Cymru.

**Holiaduron i rieni**

Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 33 o rieni. Mae lefelau boddhad yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru. Mae pawb yn cytuno bod eu plant yn hoffi'r ysgol a bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Maent o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda iawn ac meant yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda. Mae pawb yn cytuno bod eu plant yn cael eu hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u haddysgu i gadw'n iach. Mae pawb hefyd yn nodi bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch a bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn datgan bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| David Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| David Davies | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Eifion Watkins | Arolygydd Cymheiriaid |
| Julia Griffiths | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.